## P-04-535 Achubwch ein Gorsafoedd Tân

**Geiriad y ddeiseb:**

Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod gwasanaethau tân drwy’r wlad yn cael eu gwarchod rhag toriadau llym yn y gyllideb, a fyddai, yn anochel, yn effeithio ar y gwasanaeth ac ar amseroedd ymateb.

**Gwybodaeth ychwanegol:**
Oherwydd toriadau llym yn y gyllideb gan Lywodraeth Cymru i lywodraeth leol, mae awdurdodau tân yn wynebu pwysau ariannol sylweddol ac maent yn cael eu gorfodi i leihau eu cyllidebau. Credwn y bydd hyn yn effeithio’n uniongyrchol ar amseroedd ymateb a gallai roi bywydau pobl mewn perygl. Gan mai Llywodraeth Cymru sydd â’r cyfrifoldeb eithaf dros y gwasanaeth tân, credwn y dylai Llywodraeth Cymru ymyrryd yn ariannol yn yr un ffordd ag y gwnaeth gyda’r GIG, i warchod y gwasanaeth tân rhag toriadau yn y gyllideb.

**Prif ddeisebydd:** Jonathan Edwards

**Ysytyriwyd am y tro cyntaf gan y Pwyllgor:** 18 Chwefror 2014

**Nifer y llofnodion**: 698